

Pythefnos Masnach Deg

25 Chwefror – 10 Mawrth, 2019



Yr ydym fel enwad wedi bod yn hybu nwyddau Masnach Deg yn ein plith ers nifer o flynyddoedd bellach. A ninnau'n dathlu Pythefnos Masnach Deg mae'n briodol i ni atgoffa'n hunain o sut gall prynu nwyddau Masnach Deg

wneud gwahaniaeth ymarferol ar lawr gwlad ac ym mywydau unigolion. **Cynan Llwyd**, o Gymorth Cristnogol, sy'n olrhain yr effaith mae un prosiect yn yr Arfordir Ifori yn ei wneud.

Dywed y proffwyd Micha'r geiriau heriol hyn:

Na, mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisïau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw. (6:8). (beibl.net)

Dyma eiriau sydd wrth wraidd gwaith Cymorth Cristnogol; galwad pobl Dduw i sefyll dros gyfiawnder. Dyma eiriau sy'n cymhell ein cefnogwyr i roi yn hael a ffyddlon o flwyddyn i flwyddyn a dyma pam, ymysg pethau eraill, rydym fel elusen yn cefnogi a hybu Pythefnos Masnach Deg.

Yn wir, nid opsiwn neu ddewis y dylai pobl Dduw ei ystyried yw hybu



cyfiawnder, i fod yn hael bob amser ac i fyw'n wylaidd, ond gorchymyn. Dyma beth mae Duw eisïau o'i bobl. Pobl sy'n hybu cyfiawnder, sy'n hael bob amser ac sy'n byw'n wylaidd yw pobl Dduw. Un ffordd y gall eglwysi Crist yng

Nghymru gwneud hyn yw trwy gefnogi *Pythefnos Masnach Deg*.

Bob blwyddyn, mae'r Bythefnos Masnach Deg yn rhoi'r cyfle i bobl ar draws y DU i ddathlu llwyddiannau Masnach Deg a dysgu mwy am y gwahaniaeth y mae Masnach Deg yn ei wneud. Eleni, bydd yn rhoi sylw i fywydau menywod yn y diwydiant coco, ac yn datgelu ymgyrch newydd dros hawl ffermwyr coco i ennill incwm byw.

£1.86 y diwrnod yw'r swm mae ffermwyr coco yng Ngorllewin Affrica ei angen i dderbyn cyflog byw. Ar hyn o bryd, mae'r ffermwr coco cyffredin yn Arfordir Ifori yn

(parhad ar dudalen 7)

Hirlwm

Disgrifiad yw'r gair hirlwm o'r adeg o'r flwyddyn sydd rhwng diwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Mae gwraidd y gair yn amlwg ddigon – 'hir' a 'lwm' yw'r geiriau sy'n dod at ei gilydd. Cyn dyddiau bwyd yr archfarchnad roedd hi'n adeg o'r flwyddyn pan fyddai bwyd yn brin i ddyn ac anifail. Da y dywedodd Alun Jones yn ei englyn i'r **Hirlwm**

Adeg dysgub ysgubor, – hir gyni
A'r gwanwyn heb esgor;
Y trist wynt yn bwyta'r stôr
Hyd y dim rhwng dau dymor.

Byddai'r hen bobol yn arfer cadw stên o fenyn heb ei gyffwrdd tan ddechrau mis Mawrth, oherwydd edrychid ar y mis hwnnw fel un caled. I'r rheiny ohonom sy'n byw mewn ardal wledig bydd yr olwg llwm ar y tir yn amlwg ddigon, nid yw'r borfa wedi cychwyn glasu ac fe fydd presenoldeb eira ar ein mynyddoedd yn ein hatgoffa o afael y gaeaf arnom. Bryd



Dr Richard Murray / Eirlysiau ger y goedwig Cambo / CC BY-SA 2.0

hynny byddwn yn ysu am brofi haul a gwres y gwanwyn yn cynhyrfu'r tir.

Ond mae'n hirlwm arnom yn gymdeithasol ac yn ysbrydol hefyd a hynny ers sawl blwyddyn. Mae effaith toriadau i'w gweld ar ein sefydliadau, mae'r bencydd bwyd wedi eu sefydlu mewn nifer o'n hardaloedd ac mae digartrefedd yn ffaith ac yn brofiad real i

filoedd o unigolion a theuluoedd. Does ond yn rhaid i ni wrando ar y newyddion boreol neu hwyrol ac fe fyddwn yn siwr o glywed am yr hirlwm sy'n wynebu ein cymdeithas.

Ond ar waethaf cynni'n pobl ar lawr gwlad mae yna sawl un wedi pesgi'n sylweddol yn ystod amser y cynni.

(parhad ar dudalen 7)

Ffydd... a diwylliant

Y dieithryn yn ein plith

Wrth i ni nesáu, ar brydiau'n araf, ar brydiau'n ddychrynlyd o gyflym, at Fawrth 29, diwrnod llosgi'n pontydd ag Ewrop, mae'n werth i ni baratoi ein hunain at gyfnod arall o gythrwfl cymdeithasol tebyg i'r un yn dilyn Brexit.

Cyfnod lle bydd pobl yn barod i weld yr 'arall' fel bygythiad, heb sylweddoli ein bod ni i gyd yn 'eraill' mewn rhyw ddull a modd. Cyfnod lle bydd pobl sydd wedi cyd-fyw'n hapus a didramgwydd gyda'u cymdogion am flynyddoedd yn troi arnyn nhw am eu bod nhw, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn wahanol, er eu bod nhw ym mhob ffordd arall yn gyffredin. Bydd pobl yn teimlo'n hyderus eto, fel yn 2016 ar adeg y Refferendwm i dorri ar ein perthynas efo Ewrop, i ddatgan ar goedd, ragfarnau sydd am resymau da wedi cael eu cadw dan gaeaf cymdeithas war ers degawdau a theimlo fod ganddynt rwydd hynt i fynd ar warthau'r 'lleill', 'y llall', 'yr arall', a'r 'eraill'.

Dyma wers wedi ei dwyn o Facebook.

Roedd athro am ddysgu ei dosbarth am Achosion y Gwrachod yn Salem, Massachusetts. Dywedodd wrth ei ddisgyblion eu bod nhw am chwarae gêm. Aeth o gwmpas y dosbarth a sibwrdd yng

nghlust pob un o'i ddisgyblion os oedden nhw'n wrach neu'n berson normal. Y nod oedd cynnull y grŵp mwyaf posibl o ddisgyblion heb unrhyw wrach yn perthyn iddo fo. Ar y diwedd, byddai pob aelod o unrhyw grŵp sy'n cynnwys gwrach yn colli'r gêm ac yn methu'r prawf.



Archwilio Gwrach (1853) gan T. H. Matteson, Ysbrydolwyd gan yr Achos Llys yn erbyn Gwrachod Salem, Massachusetts

Aeth y bobl ifanc ati gydag arddeliad i holi a chroesholi ei gilydd. Yn fuan fe ymfurfiodd un grŵp gweddol fawr, ond fe ffurfiodd y rhan fwyaf o'r dosbarth yn grwpiau bychain ecsgliwsif, gan droi eu cefnau ar unrhyw un oedd hyd yn oed yn edrych fel pe gallen nhw fod yn euog.

'lawn ta,' meddai'r athro, 'dach chi wedi penderfynu ar eich grwpiau. Mae'n bryd

gweld pwy sydd wedi ennill a phwy sydd wedi colli.'

Holodd pob un oedd wedi cael gwybod eu bod nhw'n wrach i godi eu llaw.

Ddangosodd neb eu llaw.

Doedd yr athro ddim wedi dweud wrth yr un o'r disgyblion eu bod nhw'n wrach.

Fe'i cyhuddwyd hi o dwyllo ac o ddifetha'r gêm.

'O ddifri?' meddai'r athrawes. 'Oedd yna wrachod go iawn yn Salem? Neu a wnaeth pawb gredu yr hyn yr oedd pobl eraill yn ei ddweud, a bod yn barod i chwilio am yr hyn oedd yn anghyffredin yn hytrach na hyn oedd ganddynt yn gyffredin?'

A dyna sut mae dysgu pobl ifanc pa mor hawdd ydy hi i wahanu cymdeithas.

Y gwahaniaeth rhwng gwanwyn 2019 a haf 2016 ydy y dylen ni fod yn barod. Gobeithio y bydd y parodrwydd hwnnw'n yn golygu na fydd y gwahanu yn digwydd o gwbl. Na fydd yna anelu bysedd, saethu

geiriau a throi cefnau ar yr anghyffredin. Ond os bydd yna, yna o fod wedi byw trwy'r profiad unwaith, dylem fod yn barod, ar unwaith, i estyn llaw, cynnig cysgod a wynebu'r dorf, gan wybod mai'r peth mwyaf cyffredin yn y byd ydy ein bod ni i gyd, bob un ohonom, mewn rhyw ffordd, yn anghyffredin. Yn arall.

Arwel Rocet Jones

Pythefnos Masnach Deg (parhad o dudalen 1)

derbyn 74c y dydd. Mae bron pob un ffarmwr coco yng Ngorllewin Affrica yn byw mewn tlodi.

I fenywod, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth. Gallent blannu a chynaeafu ar y fferm, edrych ar ôl plant, cario dŵr, casglu pren, coginio a glanhau i'r teulu, cludo ffa coco i'r farchnad – ond mae ganddynt llai o hawliau na dynion. Dyma pam fod Pythefnos Masnach Deg eleni yn ffocysu ac yn ymgrychu ar sicrhau fod cyflog byw yn realiti i bawb yng Ngorllewin Affrica.

Mae gan Fasnach Deg ddeiseb i ni ei arwyddo ac maent yn annog unigolion a grwpiau i ddod ynghyd dros sleisen o gacen siocled Masnach Deg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch. Beth am godi tâl o £1.86 am sleisen o gacen siocled. Mae yna lu o syniadau ac awgrymiadau ar wefan Masnach Deg.

Mae diogelu a sefyll dros hawliau ffermwyr yn rhan hanfodol o waith Cymorth Cristnogol yn ein hymdrechion o 'hybu cyfiawnder, a bod yn hael bob amser'. Rydym yn cefnogi y Kuapa Kokoo yn Ghana.

Criw o ffermwyr coco ydynt a ddaeth ynghyd i ffurfio grŵp cydweithredol dan yr enw Kuapa Kokoo (sy'n golygu Grŵp Ffermwyr Coco Da) yn wyneb anghyfiawnder masnach. Maent yn

cyd-weithio i dyfu a gwerthu eu coco am bris teg. Caiff unrhyw arian ychwanegol maent yn ennill ei wario ar brosiectau sy'n helpu pawb yn y gymuned, megis ysgolion neu wneud yn siŵr fod yna gyflenwad o ddŵr glân a diogel i'r pentref. Rydym yn falch o fod wedi gallu helpu'r ffermwyr hyn i sefydlu eu grŵp cydweithredol.

Dyma pam ein bod yn cyd-weithio â chwmni siocled masnach deg *Divine* ers 17 o flynyddoedd i gynnal cystadleuaeth barddoni fawreddog! Thema'r gystadleuaeth eleni yw 'Sut all siocled newid y byd?'

Oes gennych chi ysgol Sul? Clwb ieuencid? Ydi eich plant a phobl ifanc yn caru siocled? Taniwch eu dychymyg a'u creadigrwydd gyda'r gystadleuaeth barddoni hon aiff a hwy ar daith o ganfod byd siocled, ffermwyr coco a masnach deg.

Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru, yw'r beirniad ac mae cyfle i'ch plant a phobl ifanc ennill ffilm o'u cerdd yn cael ei darllen gan Casia ynghyd â melysion *Divine* a thocynnau llyfr. Y dyddiad cau yw 31 Ebrill 2019.

Cysylltwch â Cymorth Cristnogol i dderbyn ffurflen ymgeisio.



Hirlwm (parhad o dudalen 1)

A chlywir celwydd a thwyll sy'n beio eraill, yn condemnio'r dieithryn, ac yn cyfeirio'n sylw – fel tric hud a lledrith clyfar – oddi wrth yr hyn sy'n digwydd at yr hyn mae'r consuriwr gwleidyddol am i ni ei weld.

A daw terfysgoedd byd a'i hawelon oer i darfu ar brydiau ar hyder y Cristion dewraf. Ac ym munudau'n hofnau wrth wynebu'r ystên sy'n gwacau yn rhyddwr ein hirlwm enaid canfyddwn ein hunain yn gal war yr Atglwydd o'r newydd.

Gweddi mewn cyfnod anodd

Arglwydd Iesu. Gad i mi dy ganfod di ynghanol cwthrwfl fy myd. Wrth i mi geisio ffordd ymlaen drwy oerfel ein hirlwm heddiw rho'r hyder i mi beidio â phryderu am yr hyn nad ydw i'n gyfrifol amdano. Pan fydd y newyddion drwg ar y newyddion yn fy llethu rho'r heddwch hwnnw sy'n dy weld yn glir pan nad yw'r ffordd yn glir neu pan fydd y dewisidiadau'n ymddangos yn rhy gymhleth. Rho Dy amynedd di i mi pan fydd pethau'n edrych yn ddu a thawelwch meddwl o wybod dy fod Di gyda mi wrth i mi godi Dy groes di'n ddyddiol. Caniatâ i mi'r hyder i wneud gwahaniaeth, i sefyll dros y da, y cyfiawn a'r glân. Caniatâ i mi gyflawni Dy ewyllys er mwyn i mi ddweud wrth eraill amdanat Ti. Amen.

LAJ